

Pecyn Adnoddau

BWTI A BROGS

Gan Gwawr Loader



Fersiwn Cymraeg

BWTI A BROGS

Theatr Cymru & Theatre Sherman 2025. I dderbyn mwy o wybodaeth, cysylltwch â
community@shermantheatre.co.uk

Y SIOE

Mae angen i bopeth fod yn berffaith, yn enwedig pan wyt ti'n dywysoges! Ac yn Nhre Melys, rhaid cael tri pheth perffaith er mwyn bod yn hapus a chael dy dderbyn – gwisg berffaith, coron berffaith a swyndlws perffaith. Dyna mae Biwti a'i thad yn meddwl, beth bynnag. Pan mae Biwti'n cyfarfod Brogs, broga bach direidus, mae hi'n dechrau dysgu bod yna lawer o wahanol fathau o berffeithrwydd yn bod ac yn darganfod beth yw cyfrinach hapusrwydd go iawn.

Yn llawn dop â chaneuon, chwerthin a neidio, mae'r hyfryd *Biwti a Brogs* gan Gwawr Loader yn ail-ddychmygu stori glasurol y Brodyr Grimm, *The Frog Prince*. Dyma'r cyflwyniad delfrydol i ryfeddod theatr fyw i blant 3-6 oed.

Nodir fod **diwrnod Nadolig** yn newid i **ddiwrnod pen-blwydd Biwti** ar gyfer perfformiadau mis Ionawr 2026.

Mae fersiwn Saesneg o sioe Gwawr Loader, dan y teitl, *The Frog Prince*, yn teithio De Cymru ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2025.

CYFLWYNIAD

Mae'r pecyn hwn ar gael i athrawon fydd yn dod â phlant i wyluo *Biwti a Brogs* yn ystod mis Tachwedd a Rhagfyr 2025, a mis Ionawr 2026, mewn theatrau a chanolfannau dros Gymru. Mae'r sioe'n addas i bobl 3 – 6 oed, felly hefyd yr adnoddau a geir yn y pecyn hwn. Bwriad yr adnodd yw hybu athrawon i drafod naratif, cymeriadau a themâu'r ddrama *Biwti a Brogs* yn yr ystafell ddosbarth cyn neu ar ôl eu hymweliad â'r theatr.

BWTI A BROGS

Theatr Cymru & Theatre Sherman 2025. I dderbyn mwy o wybodaeth, cysylltwch â community@shermantheatre.co.uk

THEATR CYMRU

Ein Gweledigaeth

Creu theatr Gymraeg fel man i ddod ynghyd, i gysylltu'r adnabyddus a'r annisgwyl, Cymreictod a'r byd, i drafod yn ddwys ac i godi'r galon.

Ein cenhadaeth

Theatr deithiol genedlaethol sy'n rhoi Cymru a'i phobl ar y map, yn agored ac yn groesawgar i bawb, gan sicrhau dyfodol disglair i'n hiaith a'n diwylliant.

[Theatr Cymru | Cartref](#)

THEATR SHERMAN

Dychmygwch fyd lle gall pŵer y theatr greu byd tecach, mwy tosturiol ac unedig. Cawn ein hysgogi i gyflawni'r weledigaeth yma yn ddyddiol. Rydyn ni'n gwneud hyn drwy greu a churadu profiadau theatr byw i'w rhannu ac i ysbrydoli pobl o bob cefndir ar draws De Cymru i fedru gwneud byd gwell, yn eu ffordd eu hunain. Credwn fod pawb â'r hawl i gael mynediad at greadigrwydd a hunanfyngiant, ac ymdrechwn yn gyson i sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i gael eu cyfoethogi gan y theatr.

Mae ein ffocws ar ddatblygu a chynhyrchu gwaith newydd ac ar feithrin artistiaid Cymraeg ac o Gymru yn ein gwneud ni'n injan i fyd y theatr yng Nghymru. Trwy ein cynyrchiadau Crëwyd yn y Sherman, rydym yn adrodd straeon Cymraeg sy'n cyseinio negeseuon o bwys yn fyd-eang, a chaiff pob un eu creu o dan ein to yng nghalon Caerdydd. Rydym yn le i bawb, gan greu cyfleoedd i bobl De Cymru gysylltu â'r theatr drwy ymrwymiad ysbrydoledig a gweledigaethol.

[Straeon o dde Cymru sy'n cyffwrdd y byd | Sherman Theatre](#)

BWT I A BROGS

Theatr Cymru & Theatre Sherman 2025. I dderbyn mwy o wybodaeth, cysylltwch â community@shermantheatre.co.uk

Y PECYN A'R CWRICWLWM I GYMRU

Ein gobaith yw bod y tasgau a ddarparwyd yn ychwanegu at elfen addysgiadol y perfformiad ac yn cynnig cyfle i'r plant ychwanegu at eu profiad o fewn 4 diben y Cwricwlwm i Gymru. Mae sawl tasg yn cyfrannu at dwf y disgybl fel cyfranwr mentrus, creadigol (Tasg 1, 4, 6 a 7.) Mae gofyn yma iddynt ddefnyddio'u dychymyg a'u creadigrwydd i greu celfyddyd o'r newydd ac ymateb yn greadigol i sbardun creadigol. Bydd Tasg 2, 3, 5, 9 a 10 yn sicrhgu yn rhoi cyfle i'r plant ddatblygu'n ddysgwyr uchelgeisiol, galluog. Maent yn canolbwyntio ar sgiliau darllen, llythrenedd, ffurfio llythrenau a chofio ac ail-adrodd gwybodaeth. Yn nhasg 4 mae cyfle i drafod emosiynau cymeriadau ac mae croeso i'r athrawon ddatblygu'r sgwrs a thrafod emosiynau'r plant wrth iddynt wyllo'r sioe. 'Sut oedd yr olygfa'n gwneud i chi deimlo' ac ati. Mae hyn yn sicrhgu ein bod yn meithrin unigolion iach, hyderus sy'n medru trafod eu hemosiynau'n agored ac ymdrin ag emosiynau pobl eraill yn sensitif a gydag empathi. Mae Tasg 10 yn gofyn i'r plant fod yn hunanymwybodol ac ystyried eraill a'u teimladau ac felly'n cyfrannu at ddatblygu dinasyddion egwyddorol, gwybodus.

BWTI A BROGS

Theatr Cymru & Theatre Sherman 2025. I dderbyn mwy o wybodaeth, cysylltwch â community@shermantheatre.co.uk

CYNNWYS

YR ACTORION A'R CYMERIADAU

ARCHWILIO'R SET

GWEITHGAREDDAU

1. RHOWCH LW I DRE MELYS	TUD 9
2. CROESAIR BWTI A BROGS	TUD 10
3. LLENWCH Y BYLCHAU	TUD 11
4. LLUNIAU LLONYDD	TUD 12
5. DOD I 'NABOD YR ACTORION	TUD 14
6. Y PETH PERFFAITH!	TUD 15
7. CREU CERDDORIAETH	TUD 16
8. AMSER CANU	TUD 17
9. CWIS	TUD 19
10. CYLCH CYFEILLGARWCH	TUD 21

RHESTR EIRFA

LLYFRAU PERTHNASOL

TEMPLED LLYTHYR

BWTI A BROGS

Theatr Cymru & Theatre Sherman 2025. I dderbyn mwy o wybodaeth, cysylltwch â community@shermantheatre.co.uk

YR ACTORION A'R CYMERIADAU




Dyma Anni.

Mae Anni'n dod o Silian ger Llanbedr Pont Steffan ac mae'n hoffi cerdded mynyddoedd, canu mewn côr a gwrando ar gerddoriaeth byw. Mae hi hefyd yn ffan mawr o wneud jig-sô!

Mae Anni'n actio rhan Biwti yn y sioe Biwti a Brogs.

Dyma lun o Anni yn ei gwisg:



BWTI A BROGS

Theatr Cymru & Theatre Sherman 2025. I dderbyn mwy o wybodaeth, cysylltwch â community@shermantheatre.co.uk



Dyma Owen.

Mae Owen yn dod o Saron ger Caernarfon ac mae'n hoffi cerdded mynyddoedd, gwylio rygbi a gwylio ffilmiau. Mae Owen yn actio rhan y Brenin a rhan Brogs yn y sioe *Biwti a Brogs*.

Dyma lun o Owen yn actio'r Brenin:



Dyma lun o Owen yn actio Brogs:



BWTI A BROGS

Theatr Cymru & Theatre Sherman 2025. I dderbyn mwy o wybodaeth, cysylltwch â community@shermantheatre.co.uk

ARCHWILIO'R SET

Dyma lun o set *Biwti a Brogs*. Set yw'r gair sy'n disgrifio beth sydd ar y llwyfan yn ystod sioe. Fel rhan o set Biwti a Brogs, mae yna gylch sgleiniog ar y llawr a dyma beth fyddwn ni'n defnyddio fel llyn. Mae yna gwpwrdd dillad mawr pinc hefyd. Beth arall gallwch chi weld sy'n rhan o'r set?



BWITI A BROGS

Theatr Cymru & Theatre Sherman 2025. I dderbyn mwy o wybodaeth, cysylltwch â community@shermantheatre.co.uk

RHOWCH LIW I DRE MELYS

Dyma boster o'r sioe *Bwti a Brogs*. Ond, o na! Mae'r lliwiau wedi diflannu! Ewch ati i roi lliw nôl yn Nhre Melys. Mae croeso i chi drïo cofio lliwiau gwisgoedd y cymeriadau yn y sioe, neu os dydych chi heb wylïo'r sioe eto – defnyddiwch eich dychymyg. Y mwya' lliwgar, y gorau!




BWTI A BROGS

Theatr Cymru & Theatre Sherman 2025. I dderbyn mwy o wybodaeth, cysylltwch â community@shermantheatre.co.uk

CROESAIR BWTI A BROGS

Defnyddiwch y cliwiau isod i lenwi'r bylchau yn y croesair.
Bydd yr atebion i gyd yn cysylltu â'r sioe!



CLIWIAU

1. Beth mae brenhinoedd yn gwisgo ar eu pennau?
2. Mae pelen aur Biwti'n un o'r rhain
3. Pa sŵn mae broga'n ei wneud?
4. Mae'n eistedd ar yr orsedd

5. Ble mae Biwti'n colli ei phelen aur?

6. Ffrind newydd y dywysoges

7. Enw'r dre sydd yn y sioe

8. Enw merch y Brenin

9. Beth mae Biwti a Brogs yn chwilio amdano yn y cwpwrdd ddillad?

BWTI A BROGS

Theatr Cymru & Theatre Sherman 2025. I dderbyn mwy o wybodaeth, cysylltwch â community@shermantheatre.co.uk

LLENWCH Y BYLCHAU

Beth sydd wedi digwydd yma? Mae gennym ni restr o eiriau sy'n ymddangos yn y sioe *Biwti a Brogs*, ond mae rhai o'r llythrennau wedi neidio i ffwrdd... o diar! Ydych chi'n gallu helpu llenwi'r bylchau a ffeindio'r llythrennau sydd ar goll?

Biw_i

B_o_gs

Br_nin

_oron

g_isg

sw_ndlws

BWTI A BROGS

Theatr Cymru & Theatre Sherman 2025. I dderbyn mwy o wybodaeth, cysylltwch â community@shermantheatre.co.uk

LLUNIAU LLONYDD

Pwy sydd yn y lluniau isod? Gallwch chi ddewis ansoddair (gair sy'n disgrifio) i ddisgrifio sut maen nhw'n edrych? Pa emosiynau mae'r cymeriadau'n teimlo? Beth sy'n digwydd yn y rhan yma o'r sioe? (Os nad ydych chi wedi gweld y sioe eto, mae croeso i chi ddychmygu beth gallai fod yn digwydd).



BWT I A BROGS

Theatr Cymru & Theatre Sherman 2025. I dderbyn mwy o wybodaeth, cysylltwch â community@shermantheatre.co.uk



BWTI A BROGS

Theatr Cymru & Theatre Sherman 2025. I dderbyn mwy o wybodaeth, cysylltwch â community@shermantheatre.co.uk

DOD I 'NABOD YR ACTORION

Gwylwch y fideos o'r actorion, Anni ac Owen, a'r cyfarwyddwr, Elin.

<https://vimeo.com/1129158813/0f7b7145bf?share=copy&fl=sv&fe=ci>

<https://vimeo.com/1129158777/b4da79fec5?share=copy&fl=sv&fe=ci>

Pa mor dda ydych chi'n 'nabod nhw nawr? Allwch chi ateb y cwestiynau canlynol?

1. Enwch 3 peth sy'n rhaid i'r actorion i wneud pan eu bod nhw'n perfformio'r sioe.
2. Beth oedd Elin yn hoffi am *Y Tri Mochyn Bach*?
3. Beth oedd hoff lyfr Anni fel plentyn?
4. Beth yw hoff beth Elin am y sioe *Bixoti a Brogs*?
5. Beth mae Owen yn mwynhau gwneud wrth berfformio yn *Bixoti a Brogs*?


Beth am ysgrifennu llythyr at yr actorion yn gofyn unrhyw gwestiwn neu gwestiynau sydd gennych chi am y sioe, yr actorion neu'r byd theatre? Defnyddiwch y templed llythyr ar ddiwedd y pecyn hwn, neu tynnwch lun i anfon at y cast os oes well gennych chi!

BWTI A BROGS

Theatr Cymru & Theatre Sherman 2025. I dderbyn mwy o wybodaeth, cysylltwch â community@shermantheatre.co.uk

Y PETH PERFFAITH!

Mae Biwti a'i thad, y Brenin, yn meddwl bod angen gwisg berffaith, coron berffaith a swyndlws perffaith i fod yn hapus. Dewiswch un o'r pethau – gwisg, coron neu swyndlws a thynnwch lun o'r un fyddai'n berffaith i chi. Cofiwch ddefnyddio eich hoff liwiau, siapiau a byddwch yn ddychmygus!



BWTI A BROGS

Theatr Cymru & Theatre Sherman 2025. I dderbyn mwy o wybodaeth, cysylltwch â community@shermantheatre.co.uk

CREU CERDDORIAETH

Ewch ati i greu darn o gerddoriaeth wreiddiol munud o hyd, gan ddefnyddio deunyddiau yn y dosbarth (unrhyw offerynnau, apps ar dabled neu iPad, neu hyd yn oed greu synau difyr gyda byrddau, pensiliau, waliau ac ati). Gallai'r darn o gerddoriaeth gael ei hysbrydoli gan un neu fwy o'r geiriau canlynol:

- A) Dŵr
- B) Nadolig / Pen-blwydd
- C) Ffrindiau

BWT I A BROGS

Theatr Cymru & Theatre Sherman 2025. I dderbyn mwy o wybodaeth, cysylltwch â community@shermantheatre.co.uk

AMSER CANU

Pa mor dda ydych chi'n cofio'r gân 'Perffaith' o'r sioe? Cewch dro ar ganu gyda'r cast! Gallwch wrando ar recordiad gan ddefnyddio'r dolenni isod:

Recordiad o'r gân 'Perffaith'

BIWTI:

Yn Nhre Melys, sgleinio mae'r byd, a'r sêr i gyd yn llon

BRENIN:

Perffeithrwydd yw ein breuddwyd ni, mae angen trindod swynol.

Mae angen gwisg sy'n berffaith, i sefyll mas mewn torf

BIWTI:

A choron bert yn sgleinio'n hardd sy'n berffaith ymhob ffordd.

BRENIN A BIWTI:

Ac un peth bach i wneud yn saff – sef swyndlwys ar fy llw!

BRENIN:

Ac heb y tri, 'sdim lle i chi

BIWTI:

Fel brogas sy'n drewi fel (pŵ)

BRENIN:

(yn torri ar ei thraws)

BIWTI!

CYTGAN

BRENIN:

Brogas bownslyd, brogas ffôl

Ffol-di-rol-di-rol-lol Ffol-di-rol-di-ro.

Yn fudur ac yn gadael eu hôl.

Ffol-di-rol-di-rol-lol Ffol-di-rol-di-ro.



BWTI A BROGS

Theatr Cymru & Theatre Sherman 2025. I dderbyn mwy o wybodaeth, cysylltwch â community@shermantheatre.co.uk

BIWTI:

*Yn sblisho, sblasho dros y siop
Ffol-di-rol-di-rol-di-roi-di-ro
Craŵcio, daŵensio, byth ar stop!
Ffol-di-rol-di-rol-lol Ffol-di-rol-di-ro.*

BIWTI A BRENIN:

*Ond mae'n tre' ni'n daclus a chlod
Heb froga'n sbwyllo'n 'Dolig drud.
Â choron, gwisg a swyndlwes hardd
Caen ddiwernod 'Dolig penigamp*

BRENIN:

Ni chaff 'run broga orsedd, wir

BIWTI:

Mae'r trysor hwn i'n teulu ni.

BWTI A BROGS

Theatr Cymru & Theatre Sherman 2025. I dderbyn mwy o wybodaeth, cysylltwch â
community@shermantheatre.co.uk

CWIS

Atebwch y cwestiynau canlynol. Mae'r atebion ar y dudalen nesaf. Dim twyllo!

1. Sawl cymeriad sydd yn y sioe?
2. Beth yw enw'r dre sy'n gartref i Biwti, Brogs a'r Brenin?
3. Beth yw'r tri pheth sydd eu hangen i fod yn berffaith yn Nhre Melys?
4. Beth yw swyndlws Biwti?
5. Pwy sy'n achub y belen aur o'r llyn?
6. Ble mae Biwti a Brogs yn trio ffeindio gwisg berffaith i Brogs?
7. Pa liw yw'r cwpwrdd?
8. Beth sy'n cael eu defnyddio i drïo stopio Biwti a Brogs rhag gyrraedd y goron?
9. Beth mae Biwti a Brogs yn trio cyrraedd ar ben y goeden?
10. Beth mae Biwti'n darganfod ar ddiwedd y sioe? Pa anifail yw hi?

BWTI A BROGS

Theatr Cymru & Theatre Sherman 2025. I dderbyn mwy o wybodaeth, cysylltwch â community@shermantheatre.co.uk

CWIS - ATEBION

1. Sawl cymeriad sydd yn y sioe? (3)
2. Beth yw enw'r dre sy'n gartref i Biwti, Brogs a'r Brenin? (Tre Melys)
3. Beth yw'r tri pheth sydd eu hangen i fod yn berffaith yn Nhre Melys?
(Gwisg, coron a swyndlws.)
4. Beth yw swyndlws Biwti? (Pelen aur)
5. Pwy sy'n achub y belen aur o'r llyn? (Brogs)
6. Ble mae Biwti a Brogs yn trio ffeindio gwisg berffaith i Brogs? (Yn y
cwpwrdd dillad di-ddiwedd)
7. Pa liw yw'r cwpwrdd? (Pinc)
8. Beth sy'n cael eu defnyddio i drïo stopio Biwti a Brogs rhag gyrraedd
y goron? (Lasers)
9. Beth mae Biwti a Brogs yn trio cyrraedd ar ben y goeden? (Seren)
10. Beth mae Biwti'n darganfod ar ddiwedd y sioe? Pa anifail yw hi?
(Broga)

BWTI A BROGS

Theatr Cymru & Theatre Sherman 2025. I dderbyn mwy o wybodaeth, cysylltwch â
community@shermantheatre.co.uk

CYLCH CYFEILLGARWCH

Eisteddweh mewn cylch. Yn eich tro, disgrifiwch beth sy'n gwneud ffrind da a pham.

Mae Biwti'n dysgu i fod yn ffrind da yn ystod y sioe. Beth yw'r pethau mae hi'n eu gwneud i wella fel ffrind?

Sut gallwn ni fod yn ffrindiau da? Gorffennwch y weithgaredd drwy addo y byddwch yn ffrindiau da i'ch gilydd yn y dosbarth. Atgoffwch eich hunain o'r pethau gallwch wneud i fod yn ffrind da.



BWTI A BROGS

Theatr Cymru & Theatre Sherman 2025. I dderbyn mwy o wybodaeth, cysylltwch â community@shermantheatre.co.uk

RHESTR EIRFA

broga = frog

tywysoges = princess

brenin = king

palas = palace

llyn = lake

gwisg = outfit

coron = crown

swyndlws = lucky charm

ffrindiau = friends

diolch = thank you

LLYFRAU PERTHNASOL

Y Llew Tu Meẃn gan Rachel Bright a Jim Field (Addasiad gan Eurig Salisbury)

Mae Pob Unicorn yn Hoffi Enfys... Tybed? Gan Emma Adams (Addasiad gan Gwynne Williams)

Yr Olweynion Y Ras Gyfeillgarwch gan Inna Nusinsky (Addasiad gan Llinos Wyn Jones)

BWTI A BROGS

Theatr Cymru & Theatre Sherman 2025. I dderbyn mwy o wybodaeth, cysylltwch â community@shermantheatre.co.uk

TEMPLED LLYTHYR

Annwyl _____

Helo! _____ ydw i. Gwelais i'r sioe Biwti a Brogs yn _____
_____ yn ystod mis _____.

Mwynheais i'r sioe achos _____

_____.

Fy hoff ddarn oedd _____

_____.

Pan dwi'n hŷn, hoffwn i fod yn _____
_____.

Diolch am ddarllen fy llythyr.

Cofion,

BWTI A BROGS

Theatr Cymru & Theatre Sherman 2025. I dderbyn mwy o wybodaeth, cysylltwch â
community@shermantheatre.co.uk